Adolygiad Rheoleiddio

Dyddiad: Tachwedd 2026

Trivallis – L143

Yn dilyn Adolygiad Rheoleiddiol, cadarnheir y Dyfarniad Rheoleiddiol ar gyfer Trivallis o fis Hydref 2023.

Dyfarniad

Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau	
Gwyrdd	**Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion**
Hyfywedd Ariannol	
Gwyrdd	**Mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn bodloni ein gofynion**

Y Broses Ddyfarnu

Cynhaliwyd yr Adolygiad Rheoleiddio yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru 2025. Roedd yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith o hunanwerthusiad y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), ei gynllun gwella cydymffurfiaeth a metrigau hyfywedd ariannol. Ystyriwyd gwybodaeth o gyswllt rheoleiddiol arferol â'r RSL hefyd. Mae'r dyfarniad blaenorol yn parhau i fod ar waith ar y sail nad oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg sy'n newid proffil risg y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn sylweddol.

Hunanwerthuso - Gofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025. Rhaid ymdrin yn llawn â'r gofyniad a nodir isod yn eich hunanwerthusiad nesaf:

Gofyniad 3. Asesiad cyfredol (o fewn y 12 mis diwethaf) o gydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu a fabwysiadwyd gan y landlord, yn nodi ac yn esbonio unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Gofyniad 6. Datganiad o'r risgiau gweithredol a strategol allweddol, ynghyd â'r mesurau lliniaru y mae'r Bwrdd wedi eu nodi ar gyfer y flwyddyn/cylch i ddod.

Gofyniad 7. Cynllun Gwella Cydymffurfiaeth sy'n nodi sut yr eir i'r afael ag unrhyw feysydd nad ydynt yn cydymffurfio (neu sy'n cydymffurfio'n rhannol) â'r safonau. Rhaid i'r cynllun gynnwys amserlen a nodi uwch-berson cyfrifol.

Mae Trivallis wedi cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

Proffil

Nifer yr Unedau	**10,892**
Trosiant Blynyddol	**£68.8m**
Gorchudd Llog	**613%**
Cymhareb Gerio	**18%**
Math o Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	**Trosglwyddiad Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT)**
Lleoliad	**De Cymru**

Mae'r ffigurau uchod o 31 Mawrth 2026, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.

Bwriad dyfarniadau rheoleiddio yw rhoi syniad i RSLs, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

• Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
• Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae RSLs yn gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN Digidol 978-1-83715-900-0
Hawlfraint y Goron 2026